**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (62)**

**Dydd Mawrth, 23rd April 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
Datganiad: Atebolrwydd Amodol yn ymwneud â Chanolfan y Mileniwm

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Carlile**
*NDM1031* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Derbyn adroddiad Carlile ar y mesurau i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael triniaeth a gofal gan y GIG yng Nghymru;

2. Croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiad; ac yn

3. Cydnabod y bydd angen gwaith didor yn y misoedd nesaf er mwyn rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith.

*Gellir gweld copïau o Adroddiad Carlisle trwy ddefnyddio'r dolenni cyswllt canlynol:*

*Fersiwn Cymraeg:* http://cynulliad/health/Key%20Publications/Young%20people/Welsh%20text.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

*Ferswin Saesneg:* http://assembly/health/Key%20Publications/Young%20people/English%20text.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

Anfonwyd copi o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Carlisle ar e-bost at bob Aelod ar 16 Ebrill 2002.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Galw ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi ystyriaeth bellach i Adroddiad Carlisle yn ystod yr Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig.

Cliciwch yma i weld ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Carlisle - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 5**
**Dadl a enwebwyd gan y Blaid Geidwadol**
*NDM1032* - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig sy'n dod â budd i Gymru gyfan.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)+(3)+(4)

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu'r cyfan ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi:
"yn cefnogi Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 sy'n nodi gweledigaeth a strategaeth cynhwysfawr ar gyfer datblygu trafnidiaeth integredig ledled Cymru ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ôl ymgynghori'n eang."
*Gellir gweld copi o Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Rhyngrwyd yn:*
http://www.wales.gov.uk/subitransport/content/policy/framework/framework-full-e.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr
*Anfonwyd copi personol o Fframwaith Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob Aelod ar 21 Tachwedd 2001.*

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu'r cyfan ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi:
'yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau polisi trafnidiaeth integredig a fydd o fudd i

Gymru gyfan'.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt newydd
'Yn cadarnhau ei fod yn cefnogi'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arnynt, mewn egwyddor, ac yn disgwyl y cynigion a fydd yn seiliedig ar yr argymhellion hyn.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu fel pwynt newydd
'Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo'r gwaith o weinyddu'r Cymhorthdal Rheilffyrdd ar gyfer Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.'

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 25 Ebrill 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**